Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 04-01-22 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), Wendy Williams, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, John Lloyd Williams, Arthur Williams, Gwenan Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Geraint Owen, Austin Roberts, Gwyn Jones |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (07/12/21).

   Cynigwyd cofnodion 07/12/21 yn gywir gan Cyng Arthur ac eiliwyd gan Cyng John Lloyd.

   Newid i'r Cofnodion: Rhif: Rhif 8 – y tri pwynt cyntaf yn y gohebiaeth yn y cofnodion Saesneg yn Gymraeg.

   Newid i'r Cofnodion: Rhif 9 - Eirlys Williams nid Eirlys Jones

5. **MATERION YN CODI**

   - **Praesept 2022/23:**

     Praesept 2021/22 oedd £7,762.70. Cynigiodd Cyng Wendy i gadw'r praesept yr un fath y flwyddyn yma. Eiliodd Cyng John Emlyn. Cytunodd yr holl gynghorwyr.

   - **Awdit 20/21:**

     Y Clerc wedi cysylltu a'r Swyddfa Archwiliad ac yn gweitho gyda'r swydda i gyflwyno'r gwybodaeth angenrheidiol.

- **Nadolig y Pentref – Cystadleuaeth Ffenest Nadolig:**

  Y teulu buddugol oedd Teulu Jones, 16 Heol Carrog.  Y teulu i dderbyn taleb o £30.00 i'w ddefnyddio yn Y Bee. Diolchwyd i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd am eu gwaith.

- **Toiledau'r Pentref:**

  Cynghorwyr Gwilym a Gwyn i edrych ar y swydd ddisgrifiad.  Y Clerc i holi am doiledau Rowen.

- **Mynwent yr Eglwys:**

  Penderfynwyd cyfarfod yn y fynwent ar gyfer cyfarfod safle, yn dilyn rheolau pellter cymdeithasol, ddydd Sadwrn, 08/01/22 am 10.00am i edrych ar y gwaith arfaethedig. Mae'r mwsog ar y llwybr i lawr i fynwent y Cyngor wedi cael ei drin.  Mae'r canllaw bellach yn well.

  Cynghorwyr John Emlyn a John Lloyd i edrych ar yr angen am asesiad risg i fynwent y cyngor a'r rhan o fynwent yr eglwys sy'n eiddo i'r Cyngor.  I'w ychwanegu fel eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.
  Y Clerc i gysylltu â CBSC i holi a oes swyddog iechyd a diogelwch ar gael i brofi'r cerrig beddau.

- **Colli tai cymdeithasol yn Eglwys Bach:**

  Cyng Ceri wedi ysgrifennu ymateb i Cartrefi Conwy, a gafodd ei rannu yn y cyfarfod. Y Clerc i'w yrru ymlaen.
  Cyng Ceri wedi siarad gyda Julie Brotherton, Cartrefi Conwy – neb o'r pentref ar y rhestr aros.
  Y Clerc i gysylltu gyda Arfon Hughes i ofyn am y rhestr o enwau a gafwyd a sut i symud ymlaen.
  Y Clerc i holi CBSC Adran Tai i ofyn am restr.
  Y Clerc i wahodd Julie Brotherton i'r cyfarfod nesaf.

6. **CYNLLUNIO**

- **Cyfeirnod: 0/49249**
  Ymgeisydd: Ms Rebecca Harding-Smith
  Cynllun: Cais i Addasu Atig a chreu Estyniad Ystafell Amlbwrpas
  Safle: Bodafon 4 Heol Carrog Eglwysbach LL28 5AQ

  Dyddiad cau: 12/01/22

  Dim gwrthwynebiad.

- **Cyfeirnod: 0/49260**
  Ymgeisydd: Mr Michael McLaren

Cynllun: Dychwelyd defnydd Chauffeur's House o swyddfeydd yn ôl mewn i annedd preswyl gyda mân newidiadau mewnol i'r strwythur a newid ffenestr i ffenestr Ffrengig a chael gwared ar bortsh modern o'r 1960au. Creu mynedfa i gerbydau newydd hefyd yn yr iard Stablau drwy adeiladu mynediad newydd gan gysylltu â strwythur to ar oledd Storfa Seiri presennol. (Caniatâd Adeilad Rhestredig)

Dyddiad cau: 13/01/22

Dim gwrthwynebiad.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £7,234.34
Angladdau - £137.70
Cadw - £2,078.36

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**

- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC (Hydref/Tachwedd/Rhagfyr) - £150.00
- Mark, Y Bee (Cystadleuaeth Ffenest Nadolig) - £30.00

**Angladdau:**
Dim.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: Senedd Cymru - Arolwg problemau carthffosiaeth lleol:**
  Noder er gwybodaeth. Cllr Ceri i'w ychwanegu i'r dudalen Facebook a gofyn i breswylwyr gysylltu a'r Clerc os unrhyw faterion.

- **E-Bost: Un Llais Cymru - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Un Llais Cymru – Cronfa Ymateb COVID-19 CGTG:**
  Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Ffordd o'r parc chwarae i Hen Efail – twll ochr y ffordd, ceir yn tynnu allan i osgoi y twll.
- Y Clerc i gysylltu a Dave Dudley, Arolygydd Maes Chwarae i holi am yr hysbysfwrdd.
- Coed yn gwiro i'r ffordd rhwng Ty'n Twll a groesffordd Topan Bach.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

01/02/22

01/03/22
05/04/22
03/05/22
07/06/22
05/07/2206/09/22
04/10/22
01/11/22
06/12/22

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 o’r gloch.